| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **dystysgrif a roddir i berson, ac na chaiff ei gyhoeddi ymhob amgylchiad ac eithrio:**<br>○ **pan fyddwch wedi cynnig llunio'r hawlen, trwydded neu dystysgrif yn Gymraeg i berson, a**<br>○ **pan fo'r person hwnnw wedi eich hysbysu nad yw'n dymuno derbyn yr hawlen, drwydded neu dystysgrif yn Gymraeg.** | |
| 46 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw lyfryn, prosbectws, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg.<br>**Rhaid i chi gydymffurfio â safon 46 mewn perthynas â'r canlynol:**<br>○ **pob llyfryn, pamffled a thaflen a gynhyrchir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru; neu a gynhyrchir yn ganolog ac sydd wedi'i dargedu i Gymru'n unig neu a ddosbarthir mewn digwyddiadau yng Nghymru;**<br>○ **y Prosbectws Is-raddedig; Prosbectws Ôl-radd; Prosbectws Modiwlau Mynediad; ac unrhyw brosbectws yn ymwneud â chyrsiau neu gymwysterau penodol i Gymru neu sydd wedi'u anelu'n bennaf at gynulleidfa sy'n preswylio yng Nghymru.** | 01/04/2018 |
| 47 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg—<br>(a) polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol;<br>(b) canllawiau a chodau ymarfer;<br>(c) papurau ymgynghori. | 01/04/2018 |

